



03 Gorffennaf 2014

Annwyl gyfaill,

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd (“cyffuriau penfeddwol cyfreithlon”).

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y meysydd canlynol fel rhan o’i ymchwiliad:

- Sut i godi ymwybyddiaeth o’r niwed sy’n gysylltiedig â’r defnydd o gyffuriau penfeddwol cyfreithlon ymhlith y cyhoedd a’r rhai sy’n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus perthnasol.
- Gallu gwasanaethau lleol ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth o’r niwed sy’n gysylltiedig â’r defnydd o gyffuriau penfeddwol cyfreithlon, ac i ymdrin ag effaith y niwed hwn.
- Effeithiolrwydd y dulliau o gasglu data ac adrodd ar y defnydd o gyffuriau penfeddwol cyfreithlon yng Nghymru, a’u heffeithiau.
- Y dulliau deddfwriaethol posibl o fynd i’r afael â’r mater o gyffuriau penfeddwol cyfreithlon, ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Pa mor effeithiol y caiff y dull partneriaeth i fynd i’r afael â’r mater o gyffuriau penfeddwol cyfreithlon yng Nghymru ei gydlynu, o fewn Cymru a rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Tystiolaeth ryngwladol am ddulliau gweithredu a ddefnyddiwyd o ran cyffuriau penfeddwol cyfreithlon mewn gwledydd eraill.

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403  
E-bost / Email: [PwyllgorIGC@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorIGC@cymru.gov.uk)

I'w nodi Mae sylweddau seicoweithredol newydd (y cyfeirir atynt yn aml fel "cyffuriau penfeddwol cyfreithlon") yn gyffuriau sydd wedi'u cyfuno i ddynwared effeithiau cyffuriau anghyfreithlon ac sy'n cael eu ceisio ar gyfer defnydd meddwol. Oherwydd eu bod newydd eu creu, nid ydynt yn cael eu rheoli yn awtomatig o dan ddeddfwriaeth cyffuriau (yn y DU, Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971). Gall y term hefyd gynnwys sylweddau o darddiad llysieuol ("cyffuriau penfeddwol llysieuol").

## **Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Er mwyn llywio'r ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y cylch gorchwyl a nodir uchod. Caiff yr ymatebion eu casglu ynghyd a'u dadansoddi, ac fe'u defnyddir i lywio'r sesiynau tystiolaeth lafar gyda chyrrff ac unigolion perthnasol, y bwriedir eu cynnal yn nhymor yr hydref 2014.

Mae rhestr o'r bobl yr anfonwyd yr ymgynghoriad atynt ar gael yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Os ydych yn gwybod am unigolion neu sefydliadau eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad, dylech dynnu eu sylw at y llythyr hwn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig gan ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan fel ei bod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fo'n berthnasol, yn unol â'u polisïau ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni at **[PwyllgorIGC@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorIGC@cymru.gov.uk)**. Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Glerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai ymatebion gyrraedd erbyn dydd Gwener 26 Medi 2014.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich sylwadau, cofiwch:


- na ddylid defnyddio mwy na phum ochr A4;
- dylid defnyddio paragraffau wedi'u rhifo;
- (os byddwch yn anfon sylwadau electronig) byddai'n well defnyddio dogfennau Word, yn hytrach na ffeiliau pdf; a
- dylid canolbwyntio ar y cylch gorchwyl a amlinellwyd uchod.

### **Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn [www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm](http://www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm)

Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style and is placed on a light yellow rectangular background.

**David Rees AC**  
**Cadeirydd**

## Atodiad

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anfon at yr unigolion a'r sefydliadau canlynol. Os ydych yn gwybod am unigolion neu sefydliadau eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad, dylech dynnu eu sylw at y llythyr hwn.

- Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru
- Sefydliad Angelus
- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru
- Cais
- Comisiynydd Plant Cymru
- Coleg Parafeddygon
- Cyngorau Iechyd Cymuned
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP)
- DrugScope
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Kaleidoscope
- Awdurdodau lleol, i gynnwys:
  - Cynrychiolwyr Safonau Masnach
  - Partneriaethau Diogelwch Cymunedol;
- Timau Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau
- Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru
- Nacro
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
- Cymdeithas Cenedlaethol Swyddogion Prawf
- Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd-
- Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ffederasiwn yr Heddlu
- Iechyd Cyhoeddus Cymru Coleg Meddygaeth Frys
- Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
- Coleg Nyrsio Brenhinol
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
- Coleg Brenhinol Ffisigwyr Caeredin
- Coleg Brenhinol Ffisigwyr a Llawfeddygon Glasgow
- Coleg Brenhinol Ffisigwyr Llundain
- Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

- Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Un o Weinidogion y DU, Y Gweinidog Gwladol dros Atal Troseddu
- Prosiect WEDINOS
- Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Conffederasiwn GIG Cymru;
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid
- Timau troseddau ieuencid